

**Dangosyddion Darbodus o ran Rheoli'r Trysorlys****Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf**

I sicrhau bod dyled yn cael ei defnyddio at ddibenion cyfalaf yn unig yn y tymor canolig, dylai awdurdodau lleol sicrhau nad yw'r ddyled allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon o unrhyw ofyniad cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf.

Yn ôl y Swyddog Adran 151, ni chafodd yr awdurdod unrhyw anhawster o ran bodloni'r gofyniad hwn yn 2022/23 ac nid yw'n rhagweld unrhyw anawsterau yn y flwyddyn gyfredol na'r blynyddoedd i ddod. Mae'r farn hon yn ystyried yr ymrwymadau presennol, y cynlluniau presennol a'r cynigion yn y rhaglen gyfalaf 3 blynedd.

**Terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol**

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27
	£m	£m	£m	£m
Benthyca	134	158	163	168
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	7	10	10	10
<b>Cyfanswm</b>	<b>141</b>	<b>168</b>	<b>173</b>	<b>178</b>

**Terfyn gweithredol ar gyfer dyled allanol**

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27
	£m	£m	£m	£m
Benthyca	128	152	157	162
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	6	9	9	9
<b>Cyfanswm</b>	<b>134</b>	<b>161</b>	<b>166</b>	<b>171</b>

**Dyled allanol wirioneddol**

Dyled allanol wirioneddol y Cyngor ar 31/03/2023 oedd £113.7m (a oedd yn cynnwys Benthyca Allanol o £107.8m a Rhwymedigaethau Hirdymor o £5.9m).

<b>Strwythur aeddfedu benthycia</b>		
	<b>Terfyn uchaf</b>	<b>Terfyn isaf</b>
Llai na 12 mis	20%	0%
12 mis ac o fewn 24 mis	20%	0%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	50%	0%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	75%	0%
10 mlynedd a throsodd	95%	25%
<u>Is-gategori 10 mlynedd a throsodd</u>		
50 mlynedd a throsodd	20%	0%


<b>Terfyn uchaf ar gyfer cyfanswm y prifysymiau a fuddsoddir am fwy na blwyddyn</b>			
<b>2023/24</b>	<b>2024/25</b>	<b>2025/26</b>	<b>2026/27</b>
£2.5m	£2.5m	£2.5m	£2.5m

### **Meincnod Dyledion**

I bob pwrpas, y Meincnod Dyledion yw Benthyciadau Net Gofynnol yr awdurdod lleol ynghyd â lwfans ar gyfer hylifedd arian. Ar ei ffurf symlaf, fe'i cyfrifir drwy dynnu swm yr adnoddau buddsoddiadwy sydd ar gael ar y fantolen (cronfeydd wrth gefn, balansau llif arian) o swm y ddyled allanol sydd yn weddill, ac yna adio isafswm y buddsoddiadau sydd eu hangen i reoli'r llif arian parod o ddydd i ddydd.

Mae pedair elfen i'r Meincnod Dyledion: -

- Y ddyled bresennol sy'n weddill o ran benthyciadau: benthyciadau presennol yr Awdurdod fydd yn parhau yn weddill yn y blynyddoedd sydd i ddod.
- CFR (Gofyniad Cyllido Cyfalaf) y benthyciadau: fe'i cyfrifir yn unol â'r diffiniad o fenthyciadau CFR yn y Côd Darbodus ac fe'i defnyddir i wneud amcanestyniad at y dyfodol ar sail y benthycia darbodus cymeradwy a'r Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) a gynllunnir.
- Y Gofyniad o ran benthyciadau net: bydd hwn yn dangos dyled gros yr Awdurdod o ran benthyciadau, namyn y buddsoddiadau rheoli trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan wneud amcanestyniad at y dyfodol ar sail y benthycia darbodus cymeradwy, yr MRP a gynllunnir ac unrhyw lif arian mawr a ragwelir.
- Meincnod Dyledion (y gofyniad gros o ran benthyciadau): mae hyn y gyfystyr â'r gofyniad net o ran benthyciadau ac ychwanegu lwfans ar gyfer hylifedd tymor byr.



**ATODLEN BUDDSODDI**

Categori buddsoddi	Terfyn penodedig ar gyfer buddsoddiad unigol	Terfyn penodedig ar gyfer y categori buddsoddi	Meini prawf sgôr gredyd 'uchel'	Diogelwch / Sgôr Gredyd 'Uchel' Isaf (Fitch neu gyfatebol)	Ad-daladwy/ Adbrynadwy o fewn 12 mis?	Amgylchiadau defnyddio'r buddsoddiad	Cyfnod buddsoddi mwyaf
--------------------	--	--	---------------------------------	--	---------------------------------------	--------------------------------------	------------------------

**BUDDSODDIADAU PENODEDIG** (*Rhaid i'r holl fuddsoddiadau a restrir isod fod mewn sterling a rhaid nad ydynt yn gyfalaf benthyciad na chyfranddaliad*)

<b>Swyddfa Rheoli Dyledion Llywodraeth y DU – Cyfleuster Adneuo'r Asiantaeth Rheoli Dyledion (DMADF)</b>	Diderfyn	Diderfyn	Amherthnasol	Fe'u cefnogir gan Lywodraeth y DU	Ydyn	Mewnol	6 mis (Polisi DMO Presennol)
<b>Banciau sydd wedi'u gwladoli'n llwyr neu'n rhannol gan Lywodraeth y DU</b> (e.e. Northern Rock)	Gweler Atodiad 1	Gweler Atodiad 1	Lliw glas ym mandiau cyfnodol <i>Link</i>	Tymor byr F2	Ydyn	Mewnol	1 flwyddyn
<b>Adneuron cyfnod penodol neu adneuron galw</b> gyda Llywodraeth y DU neu gydag awdurdodau lleol (fel y'u diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003)	Diderfyn ar gyfer Llyw. y DU, 1m fesul ALI	Diderfyn	Amherthnasol	Diogelwch uchel, ond nid oes gan yr Awdurdodau Lleol sgôr gredyd.	Ydyn	Mewnol	Llywodraeth y DU : blwyddyn Awdurdodau Lleol: 90 diwrnod gydag isafswm o 180 o ddiwrnodau rhwng bob buddsoddiad
<b>Adneuron cyfnod penodol neu adneuron galw</b> gyda sefydliadau sy'n derbyn adneuron a chanddynt sgôr gredyd (banciau a chymdeithasau adeiladu)	Gweler Atodiad 1	Gweler Atodiad 1	Melyn, Porffor, Oren, Coch neu Wyrdd ym mandiau cyfnodol <i>Link *</i>	Tymor hir Tymor byr A-F1	Ydyn	Mewnol	1 flwyddyn ar gyfer Melyn, Porffor ac Oren 6 mis ar gyfer Coch 100 diwrnod ar gyfer Gwyrdd
<b>Tystysgrifau Adneuron</b> a roddir gan sefydliadau sy'n derbyn adneuron a chanddynt sgôr gredyd (banciau a chymdeithasau adeiladu) ( <i>Angen trefniant gwarchodol cyn prynu</i> )	£2.5m	£2.5m	Melyn, Porffor, Oren neu Goch ym mandiau cyfnodol <i>Link *</i>	Tymor hir Tymor byr A-F1	Ydyn	Mewnol a rheolw(y)r cronfeydd allanol	1 flwyddyn
<b>Giltiau Llywodraeth y DU</b> ( <i>Angen trefniant gwarchodol cyn prynu</i> )	£2.5m	£2.5m	Amherthnasol	Fe'u cefnogir gan Lywodraeth y DU	Ydyn	Mewnol a rheolw(y)r cronfeydd allanol	1 flwyddyn
<b>Biliau'r Trysorlys</b> ( <i>Angen trefniant gwarchodol cyn prynu</i> )	£2.5m	£2.5m	Amherthnasol	Fe'u cefnogir gan Lywodraeth y DU	Ydyn	Mewnol a rheolw(y)r cronfeydd allanol	1 flwyddyn

Categori buddsoddi	Terfyn penodedig ar gyfer buddsoddiad unigol	Terfyn penodedig ar gyfer y categori buddsoddi	Ad-daladwy/ Adbrynadwy o fewn 12 mis?	Amgylchiadau defnyddio'r buddsoddiad	Cyfnod buddsoddi mwyaf		
					Ydyn	Mewnol, yn amodol ar y canllawiau a'r terfynau y cytunwyd arnynt	Ni chaiff y cyfnod buddsoddi ei bennu ar y cychwyn, ond bydd yn dibynnu ar y gofynion llif arian a hylifedd
<b>Cronfeydd Hylifedd / Marchnad Arian y Llywodraeth</b> – Nid oes gan y cronfeydd hyn ddyddiad aeddfedu a gellir cael mynediad atynt ar yr un diwrnod neu drwy roi diwrnod o rybudd fel rheol	£2m	£2m	AAA	Sgôr gredyd uchaf	Ydyn	Mewnol, yn amodol ar y canllawiau a'r terfynau y cytunwyd arnynt	Ni chaiff y cyfnod buddsoddi ei bennu ar y cychwyn, ond bydd yn dibynnu ar y gofynion llif arian a hylifedd

\* Troednodyn – Cyn unrhyw droshaenu byrdymor

BUDDSODDIADAU AMHENODEDIG							
<b>Cronfeydd Eiddo</b>	£2.5m	£2.5m	Na	Ystyrir y cronfeydd yma'n wariant cyfalaf. Cymerir diwydrwydd dyladwy, gan gynnwys cyngor oddi wrth ymgynghorwyr Trysorlys Allanol y Cyngor cyn ymgymryd â buddsoddiad o'r fath .	Mae'n bosib na phenderfynir ar y cyfnod buddsoddi ar y cychwyn fodd bynnag bydd yn ddibynnol ar lif arian a gofynion hylifedd		

Terfyn penodedig buddsoddiad unigol fesul Grŵp Bancio	Terfyn penodedig y categori buddsoddi	Meini prawf sgôr gredyd (Ar sail bandiau cyfnodol Link)	Rhestr sefydlog o wrthbartïon penodol (caiff ei diweddarau'n gyson yng ngoleuni newidiadau i sgoriau credyd ac o ran bodloni'r meini prawf sgoriau credyd)
£7m	£7m	GLAS neu GOCH	<p><b><u>Wedi'u gwladoli'n rhannol neu'n llwyr gan Lywodraeth y DU</u></b>                      Natwest Group plc gan gynnwys;                      National Westminster Bank plc (gan gynnwys cyfrif ar alw 'Mynediad yn syth/ gyda rhybudd')                      Royal Bank of Scotland Plc                      NatWest Markets Plc (NRFB)</p>
£6m	£25m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH	<p><b><u>Grŵp Bancio / Cymdeithas Adeiladu yn y DU(1):</u></b>                      Unrhyw un o'r banciau neu'r cymdeithasau adeiladu yng nghategori Grŵp Bancio y DU / Cymdeithas Adeiladu (2) os yw eu statws yn newid o WYRDD i GOCH neu OREN neu PORFFOR neu FELYN plws HSBC Bank Plc                      Bank of Scotland Plc (gan gynnwys cyfrifon ar alw 'Mynediad yn syth/ gyda rhybudd')                      Cymdeithas Adeiladu Nationwide                      Cymdeithas Adeiladu Coventry                      Cymdeithas Adeiladu Skipton                      Lloyds Banking Group, gan gynnwys;                      Lloyds Bank Plc                      Lloyds Bank Corporate Markets (NRFB)                      Bank of Scotland Plc (gan gynnwys cyfrifon ar alw 'Mynediad yn syth/ gyda rhybudd')</p>
£4m	£10m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH neu WYRDD	<p><b><u>Grŵp Bancio â rhiant-gwmni tramor:</u></b>                      Santander UK plc (Gan gynnwys cyfrifon galw mynediad uniongyrchol)                      Standard Chartered Bank                      Banc Rhyngwladol Goldman Sachs</p>
£3m	£6m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH neu WYRDD	<p><b><u>Grŵp Bancio / Cymdeithas Adeiladu yn y DU (2):</u></b>                      Unrhyw un o'r banciau neu'r cymdeithasau adeiladu yng nghategori Grŵp Bancio / Cymdeithas Adeiladu yn y DU (1) os bydd ei statws yn newid o GOCH i WYRDD, yn ogystal â                      Cymdeithas Adeiladu Yorkshire                      Cymdeithas Adeiladu Leeds</p>
£9m	£6m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH neu WYRDD	<p><b>Barclays Bank Plc</b> * – Terfyn ar gyfer balansau dros nos ar gyfrifon banc corfforaethol</p>
	£3m		<p><b>Barclays Bank Plc</b> * –Terfyn ar gyfer adneuon tymor penodol a mynediad uniongyrchol (gan gynnwys Cyfrifon Cadw Gwyrdd) Terfyn Cyfrifon Galw ar gyfer balansau cyfrifon galw.</p>

- Troednodyn – Barclays sy'n darparu gwasanaethau bancio i'r Cyngor ar hyn o bryd

**Datganiad Polisi ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw 2024/25**

1. Egwyddorion cyffredinol

- a) Mae Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2024/25 yn dilyn egwyddorion y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan adran 21(1A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gan ddefnyddio un o'r opsiynau a amlinellir yn y canllawiau, yn ogystal â chyflwyno opsiwn arall a ategir gan yr egwyddor darpariaeth ddarbodus.
- b) Pennir y cyfnodau oes amcangyfrifedig yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig oni bai fod Llywodraeth Cymru'n mynnu neu'n penderfynu fel arall. I'r graddau nad yw'r gwariant yn creu ased a'i fod yn wariant y mae cyfnodau oes amcangyfrifedig y cyfeirir atynt yn y canllawiau'n berthnasol iddo, bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r cyfnodau hyn yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i bennu cyfnodau oes defnyddiol ac isafswm darpariaeth refeniw ddarbodus mewn amgylchiadau eithriadol pan na fyddai argymhellion y canllawiau'n briodol.
- c) Oherwydd nad oes modd cysylltu rhai mathau o wariant cyfalaf y Cyngor ag ased unigol, caiff oes ased ei hasesu ar y sail sy'n adlewyrchu cyfnod disgwylidig y budd sy'n deillio o'r gwariant yn y modd mwyaf rhesymol. Hefyd, pa fath bynnag o wariant sydd o dan sylw, bydd yn cael ei grwpio mewn modd sy'n adlewyrchu natur y brif elfen o wariant ac ni fydd ond yn cael ei wahanu mewn achosion lle mae dwy neu ragor o brif elfennau ac iddynt oes ddefnyddiol economaidd wahanol iawn i'w gilydd.

2. Dulliau o gyfrifo isafswm darpariaeth refeniw (MRP)

- a) Bydd y gyfran fwyaf o MRP ar gyfer 2024/25 yn gysylltiedig â rhwymedigaethau dyledion mwy hanesyddol a oedd yn bodoli cyn 2008 neu ar ôl 2008 yn achos Benthycy â Chymorth a ariennir gan Lywodraeth Cymru (LIC). Darperir ar gyfer y rhwymedigaeth MRP ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor sy'n gysylltiedig â dyledion cyn 2008 a Benthycy â Chymorth ar ôl 2008 a ariennir gan LIC drwy'r Grant Cynnal Refeniw drwy ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau LIC 2018 a chymhwyso Dull Blwydd-dal gyda chyfradd llog o 4.20% (cyfartaledd cyfradd benthycy y benthyciadau sy'n weddill ar 01/04/21) dros gyfnod o 44 blynedd, gan gychwyn ar 01/04/2021.
- b) Gan fod Benthycy â Chymorth newydd pellach yn cael ei ddefnyddio yn y Rhaglen Gyfalaf, darperir hefyd ar gyfer rhwymedigaeth MRP pob cyfran newydd o Fenthycy â Chymorth drwy ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru ac chymhwyso'r Dull Blwydd-dal.
- c) Bydd cyfran sylweddol o'r MRP ar gyfer 2024/25 yn ymwneud â Benthycy Darbodus Digymorth ers 2008 a ddangosir o fewn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf. Darperir rhwymedigaeth MRP ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor sy'n ymwneud â Benthycy Digymorth wedi 2008, gan ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru a chymhwyso'r Dull Blwydd-dal gyda chyfradd llog o 3.68% (cyfradd llog gyfartalog bwysedig y benthyciad dan sylw) dros gyfnod o 39 o flynyddoedd, gan ddechrau ar 01/04/2021.
- d) Wrth ddefnyddio mwy o'r Benthyciad Darbodus Digymorth yn Rhaglen Gyfalaf, bydd y rhwymedigaeth MRP a ddangosir yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf yn cael ei godi dros gyfnod sy'n gyfwerth ag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr asedau gan ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau Llywodraeth Cymru 2018 a chymhwyso'r Dull Blwydd-dal.
- e) Pan fyddwn yn ymgymryd â Benthycy Dros Dro yn lle derbyniadau cyfalaf a fydd yn dod i law yn y dyfodol (e.e. benthyciadau cyllid ad-daladwy LIC neu Fenthycy Darbodus Digymorth dros dro) byddwn yn parhau â'r egwyddor o beidio â chodi MRP e.e. pan fyddwn yn aros i dderbyniadau cyfalaf ddod i law ar ôl gwerthu asedau diangen.
- f) Pan fydd ased yn cael ei hadeiladu, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â chodi MRP hyd nes y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn y mae'r gwariant cyfalaf yn cael ei wneud ac, yn achos ased newydd, pan fo'r ased yn dechrau cael ei defnyddio.

- g) Codir MRP ar drefniadau credyd PFI dros gyfnod sy'n cyfateb i amcangyfrif oes ddefnyddiol a gymhwysir i'r ased gan ddefnyddio Dull Blwydd-dal.
- h) Pan fydd MRP yn gysylltiedig â phroffil a bennwyd ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â threfniant credyd (e.e. Prydles Gyllidol) bydd y cyfrifiad MRP yn cydweddu â'r proffil ad-dalu pwrpasol perthnasol.
- i) Gall y Cyngor ddewis gwneud cyfraniadau MRP gwirfoddol yn ychwanegol at y cyfrifiadau MRP uchod ar unrhyw adeg. E.e. Gall y Cyngor ymdrin â chyfraniadau MRP gwirfoddol fel darpariaeth 'ymlaen llaw' (sy'n cael effaith debyg i ad-dalu dyled yn gynnar) a gall ailgyfrifo taliadau MRP yn y dyfodol yn unol â hynny.